RICHARD, EDWARD (1714 - 1777), ysgolfeistr, ysgolhaig a bardd

Enw: Edward Richard
Dyddiad geni: 1714
Dyddiad marw: 1777
Rhiant: Gwenllian Richard
Rhiant: Tomos Richard
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr, ysgolhaig a bardd
Maes gweithgaredd: Addysg; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: David Gwenallt Jones

Ganwyd yn Ystradmeurig ym mis Mawrth 1714. Enw ei dad oedd Tomos Richard, teiliwr a thafarnwr, a Gwenllian ('Modryb Gwen ' fel y gelwid hi yn gyffredin) oedd enw ei fam. Cafodd Edward wersi mewn Groeg a Lladin gan ei frawd, Abraham; aeth i ysgol ramadeg y frenhines Elisabeth, Caerfyrddin, ac oddi yno i Bontygido, dan ofal clerigwr o'r enw Pugh, ysgolhaig enwog mewn Groeg. Tua 1735 neu 1736 aeth yn ei ôl i Ystradmeurig i gadw ysgol, a daeth ei ysgol yn enwog, a rhai o'i ddisgyblion yn bwysig mewn llawer cylch. Bu farw 4 Mawrth 1777.

Dangosodd Edward Richard ei fugeilgerdd gyntaf i ' Ieuan Brydydd Hir,' Lewis Morris, a Richard Morris, a chyhoeddwyd hi am y tro cyntaf yn *Almanac* Gwilym Howel, 1767. Yn 1776 argraffwyd yn Amwythig gan J. Eddowes, *Bugeilgerdd. Yr Ail yn y Iaith Gymraeg gan Edward Richard. Awdwr y Gyntaf.* Ar ddiwedd hwn, yn un o'r ' Amryw ' yn y Llyfrgell Genedlaethol, ceir y fugeilgerdd gyntaf mewn llawysgrif, ond nid llawysgrif Edward Richard ydyw. Cyfieithwyd y fugeilgerdd hon yn Saesneg gan ' Ieuan Brydydd Hir,' a cheir ei gyfieithiad yn Panton MS. 2 (193-200). Yn *Gwaith Dafydd Ionawr*, a olygwyd gan Morris Williams ('Nicander'), tadogwyd un o englynion Edward Richard arno. Edward Richard yw awdur yr englyn sydd gan Saunders Lewis yn ei lyfr, *A School of Welsh Augustans*, ac y mae N.L.W. MS. 5487, sef ' Diaries of the Rev. Timothy Davies ' (mab David Davis, Castellhywel), yn profi ei fod yn gywir. Gweler y ddau englyn yn *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif*, 35. Argraffwyd gwaith Edward Richard yn 1803, 1811, 1813, 1851, 1856, a Chyfres y Fil, 1912; ac amryw o'i lythyrau yn *Additional Morris Letters*.

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

D. G. Osborne-Jones, *Edward Richard of Ystradmeurig with the story of his school and its associations under its successive masters 1734-1934* (Caerfyrddin 1934)

D. Emrys Evans *Y Beiriniad*, vii, 252

Saunders Lewis *A School of Welsh Augustans being a study in English influences on Welsh literature during part of the 18th century* (Wrecsam 1924)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edward Richard

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q10978349

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.